OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1025 (Cy. 218)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo mewn Meddiannaeth Gyffredin) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Hydref 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 64(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo mewn Meddiannaeth Gyffredin) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" yn adran 64 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

### Prisio hereditamentau a feddiennir

**2.** Pan fo dau neu ragor o hereditamentau, pa un a ydynt yn yr un adeilad ai peidio, yn cael eu meddiannu gan yr un person, ac—

(a) mae'r hereditamentau yn bodloni'r amod cyffinio yn rheoliad 4, a

(**1**) 1988 p. 41.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (S.I. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaeth honno wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(b) ni chaiff yr un o'r hereditamentau ei ddefnyddio at ddiben sy'n hollol wahanol i'r diben y caiff unrhyw un o'r hereditamentau eraill ei ddefnyddio ato,

rhaid trin yr hereditamentau fel un hereditament.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**Prisio hereditamentau heb eu meddiannu**

**3.** Pan fo dau neu ragor o hereditamentau heb eu meddiannu, pa un a ydynt yn yr un adeilad ai peidio—

(a) yn eiddo i'r un person,

(b) yn bodloni'r amod cyffinio yn rheoliad 4,

(c) wedi peidio â chael eu meddiannu ar yr un diwrnod ac wedi ill dau barhau i fod heb eu meddiannu ers y diwrnod hwnnw, a

(d) yn union cyn y diwrnod hwnnw, roedd yr hereditamentau yn hereditament sengl, neu'n rhan o hereditament sengl o dan reoliad 2,

rhaid trin yr hereditamentau fel un hereditament.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**Yr amod cyffinio**

**4.** Mae'r hereditamentau yn bodloni'r amod cyffinio—

(a) os yw o leiaf ddau o'r hereditamentau yn gyffiniol, a

(b) pan na fo pob un o'r hereditamentau yn cyffinio â'i gilydd—

(i) os yw un neu ragor o'r hereditamentau eraill yn cyffinio ag un neu ragor o'r hereditamentau sy'n dod o fewn paragraff (a), a

(ii) os yw pob un o'r hereditamentau sy'n weddill (os oes un) yn cyffinio ag o leiaf un hereditament sy'n dod o dan is-baragraff (i) neu'r is-baragraff hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**5.** Yn rheoliad 4 mae dau hereditament yn gyffiniol—

(a) os yw rhan neu'r cyfan o wal, ffens, neu ddull arall o amgáu un hereditament yn ffurfio rhan neu'r cyfan o wal, ffens, neu ddull arall o amgáu'r hereditament arall, neu

(b) os yw'r hereditamentau ar loriau nesaf at ei gilydd mewn adeilad, ac mae rhan neu'r cyfan o lawr un hereditament yn union uwchben rhan neu'r cyfan o nenfwd yr hereditament arall,

ac ni chaiff hereditamentau a feddiennir gan yr un person neu sy'n eiddo i'r un person eu hatal rhag bod yn gyffiniol o dan baragraff (a) neu (b) dim ond am fod man rhyngddynt nas meddiennir gan y person hwnnw neu nad yw'n eiddo iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau hyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn pennu'r amgylchiadau pan fo rhaid trin dau neu ragor o hereditamentau, pa un a ydynt wedi eu meddiannu ai peidio, fel un hereditament at ddibenion pennu atebolrwydd perchennog neu feddiannydd am ardrethi annomestig.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan fo dau neu ragor o hereditamentau i'w hystyried yn cyffinio â'i gilydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo mewn Meddiannaeth Gyffredin) (Cymru) 2022.